



Cam 1 Cynllun Lliniaru Llifogydd Nant Gwawr

Cynllun Lliniaru Llifogydd wedi'i gyflwyno i leihau perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin i 232 o eiddo preswyl a lleihau'r tarfu ar y briffordd yn ardal Aberaman.

Crynodeb o'r Cynllun	
Ardal Risg Llifogydd Strategol	Canol Cwm Cynon 1
Lleoliad	Nant Gwawr, Aberaman
Eiddo sy'n elwa	232 eiddo
Math o Gynllun	Cynllun Lliniaru Llifogydd Cymhleth
Cost	£400,000
Contractwr	Alun Griffiths Ltd
Statws	Wedi'i gwblhau
Dyddiad cwblhau'r cynllun	2014
Ffrwd Ariannu	Grant Cyfalaf FCERM Llywodraeth Cymru & Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop



Uwchraddio cilfach cwlfer: Cam 1 Cynllun Lliniaru Llifogydd Nant Gwawr, Aberaman

Cefndir y Cynllun

Mae materion llifogydd hanesyddol sy'n gysylltiedig â chwrs dŵr cyffredin Nant Gwawr sy'n cludo trwy Aberaman, yn ogystal â llifogydd dŵr wyneb lleol sy'n achosi aflonyddwch ar hyd y briffordd yn Heol Caerdydd, wedi effeithio ar yr ardal yma ar sawl achlysur.

Mae cymuned Aberaman wedi'i osod yn safle 155 yng Nghymru ar gyfer perygl llifogydd cwrs dŵr cyffredin a dŵr wyneb ar Gofrestr Cymunedau mewn Perygl (CaRR). Yn ogystal â hyn, yn seiliedig ar fapiau Asesiad Perygl Llifogydd Cymru Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), mae perygl llifogydd dŵr wyneb a chyrsgiau dŵr cyffredin uchel ar hyd cwrs dŵr arferol cyfan Nant Gwawr a'r ardal o'i hamgylch.

Disgrifiad o'r Cynllun

Cwblhawyd cynllun lliniaru llifogydd Nant Gwawr diolch i gronfeydd cyfalaf Cyngor Rhondda Cynon Taf, Grant Rheoli Perygl Llifogydd Llywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop i liniaru problemau llifogydd hanesyddol yn ymwneud â chwrs dŵr cyffredin Nant Gwawr yn Aberaman.

Roedd y cynllun lliniaru llifogydd yn cynnwys **adnewyddu rhwydwaith cwlfer Heol Caerdydd a chyfluniadau mewnfa ac allfa newydd**. Roedd gwaith cwrs dŵr i lawr yr afon yn cynnwys **cynyddu cynhwysedd cwrs dŵr Nant Gwawr** ynghyd ag **amddiffyniad erydiad/sgwrio i wella cydnerthedd y cwrs dŵr** yn erbyn difrod a achosir yn ystod stormydd.


Mae strwythurau presennol y cwrs dŵr wedi'u haddasu i wella llif y dŵr, gyda systemau gorlif a ddefnyddir hefyd mewn ardaloedd critigol ar hyd y cwrs dŵr i ddarparu cydnerthedd yn erbyn rhwystrau posibl. Gosodwyd dyfeisiau telemetreg, gan gynnwys camera teledu cylch cyfyng (TCC), mesurydd glaw a system rhybuddio am lefel y dŵr yng nghwlfert Heol Caerdydd i roi rhybuddion ymlaen llaw i garfanau cynnal a chadw'r Cyngor o rwystrau posibl.

Yn ogystal â'r gwelliannau i gyrsiau dŵr, hwyluswyd gwelliannau i'r priffyrdd ar hyd Heol Caerdydd hefyd yn ystod y gwaith er mwyn lleihau'r tarfu estynedig i'r ardal leol. Bydd y rhain yn cynnwys lledu'r briffordd rhwng y cyffyrdd â Stryd Abergwawr a Stryd Curre, rheoli traffig a rhoi wyneb newydd ar y briffordd rhwng Stryd Bron Heulog, cyffordd Stryd Lewis a Stryd Bryn y Mynydd.

Buddion y Cynllun



Lleihau perygl
llifogydd ar gyfer **232**
eiddo



Monitro TCC o'r
giffach cyfagos i
Heol Caerdydd



Gosod **system larwm**
rhybudd cynnar at
ddibenion cynnal a
chadw'r Cyngor



Cynnal
gwelliannau
priffyrdd yn rhan o'r
cynllun yma i leihau
aflonyddwch



Lleihau risg malurion
yn rhwystro ar hyd y
cwrs dŵr ac y fewnfa



Gwell mynediad
cynnal a chadw at y
mecanwaith rheoli
malurion i fyny'r afon